**Professor CHRISTIANNE GLOSSOP BVetMed PhD MRCVS FRAgS**
Chief Veterinary Officer for Wales/
Prif Swyddog Milfeddygol ar Gyfer Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

5 Ionawr 2021

# Symud defaid a geifr o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon at ddiben Bridio a Chynhyrchu: Rheolau Newydd mewn grym o 1 Ionawr 2021

Yn dilyn ein llythyr ar 14 Rhagfyr 2020, hoffem esbonio'r gofynion ychwanegol o ran symudiadau o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2021. Bydd gofyn eu dilyn p'un a fydd cytundeb masnach rhwng y DU a'r UE neu beidio. Bydd busnesau ym Mhrydain Fawr sy'n masnachu defaid a geifr byw at ddiben bridio a chynhyrchu (pesgi) a'u germplasm (semen, ofa ac embryonau) i Ogledd Iwerddon yn gorfod dilyn prosesau newydd o ran clefyd y crafu.

Mae dwy ffordd o fodloni'r gofynion newydd hyn. **Naill ai:**

(a) bod yr anifeiliaid yn dod o ddaliadau sy'n bodloni'r diffiniad o 'risg dan reolaeth' mewn cysylltiad â chlefyd y crafu. Ym Mhrydain Fawr, mae hynny'n golygu y byddent wedi bod yn rhan o Gynllun Coleg Gwledig yr Alban ar gyfer Monitro'r Crafu dros y tair blynedd diwethaf; **neu**

(b) bod gan yr anifeiliaid brawf genetig sy'n dangos bod ganddynt ymwrthedd i'r clefyd a'u bod yn dod o ddaliad na fu cyfyngiadau BSE neu'r crafu arno yn y ddwy flynedd ddiwethaf.

Rydyn ni'n gwerthfawrogi y byddai'n anodd i'r rhan fwyaf o ffermydd Prydain Fawr sy'n rhan o'r fasnach allu bodloni'r gofynion heb fod yn aelod o'r Cynllun Monitro (SMS). Mae'r trefniadau hyn yn adlewyrchu'r rheini ar gyfer masnachu o'r DU i'r UE. Mae Llywodraeth y DU wedi codi'r mater yn ei thrafodaethau â'r UE ond er hynny, ni lwyddwyd i daro ar ateb technegol ar gyfer ei ddatrys.

Rydyn ni'n sylweddoli y bydd hyn yn destun siom i fasnachwyr. Gallwn roi cyngor ar ddod yn aelod o'r SMS i helpu busnesau i addasu i'r gofynion newydd. Amgaeaf ddolen i'r cynllun:
https://www.sruc.ac.uk/downloads/download/809/scrapie_monitoring_scheme

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

**Professor CHRISTIANNE GLOSSOP BVetMed PhD MRCVS FRAgS**
Chief Veterinary Officer for Wales/
Prif Swyddog Milfeddygol ar Gyfer Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

O ran y masnachwyr sy'n bodloni gofynion newydd clefyd y crafu, er mwyn cael symud defaid a geifr (at ddiben bridio a chynhyrchu) a'u germplasm (semen, ofa ac embryonau) o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon, bydd dal i fod gofyn cadw at yr un gofynion o ran ardystio clefydau endemig â'r rheini ar gyfer symud anifeiliaid o Brydain Fawr i'r UE, yn unol â'n llythyr ar 14 Rhagfyr. Bydd gofyn i fasnachwyr barhau hefyd i gadw at y gofynion sydd eisoes yn bod o ran symud anifeiliaid o Brydain Fawr i Ogledd Newydd, megis y gofynion ar gyfer Maedi Visna/ Arthritis Encephalitis y Geifr (CAE). Ewch i https://www.daera-ni.gov.uk/articles/sheep-and-goat-imports-gb am y manylion.

Yn gywir,

**Professor Christianne Glossop BVetMed PhD MRCVS FRAgS**
**Chief Veterinary Officer**